# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Chwarterol – Cadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb (Tachwedd 2025) |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cyng. Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor |
| **Swyddog perthnasol:** | Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 11 Tachwedd 2025 |

## 1. Penderfyniad a Geisir:

Gofynnir i'r Cabinet dderbyn yr adroddiad gerbron sef yr ail adroddiad chwarterol gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

## 2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

Mabwysiadwyd Cynllun Ymateb gan Gabinet Cyngor Gwynedd ym mis Ionawr 2025 i goladu'r holl gefnogaeth, adolygiadau, archwiliadau a ffrydiau gwaith eraill yn ymwneud â'r ymateb i droseddu yr gan y Pennaeth Ysgol , Neil Foden.

Bu addewid i adrodd yn chwarterol i Aelodau'r Cabinet ar gynnydd rhaglen waith a gweithrediad y Bwrdd Ymateb.

Rhennir yr adroddiad gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb, gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o'r datblygiadau a'r hyn sydd wedi ac yn parhau angen ei gyflawni gan y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

### 3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

Comisiynwyd y Prif Weithredwr i roi trefniadau mewn lle i weithredu cynnwys y Cynllun Ymateb hwn gan gynnwys sefydlu Bwrdd Rhaglen penodol ac adrodd ar gynnydd yn rheolaidd i'r Cabinet.

Penodwyd yr Athro Sally Holland i ymgymryd a rôl Cadeirydd Annibynnol y Bwrdd ym mis Chwefror 2025. Mae Sally yn Athro Gwaith Cymdeithasol yng Nghanolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn gyn Gomisiynydd Plant Cymru (2015-2022).

Fel yr addewid, bydd Sally yn adrodd yn chwarterol i Aelodau'r Cabinet ar gynnydd rhaglen waith a gweithrediad y Bwrdd Ymateb. Dyma'r ail o'r adroddiadau hyn (y cyntaf mis Gorffennaf 2025).

Roedd disgwyl cyhoeddi'r Adolygiad Ymarfer Plant ar y 24 Medi 2025, ac felly y gobaith ar gyfer yr adroddiad hwn oedd i fod yn rhannu diweddariad ar gynnydd yn erbyn argymhellion

yr adroddiad hwnnw yn ogystal â rhaglen waith presennol y Cynllun Ymateb. Fodd bynnag, gohiriwyd cyhoeddi yr adroddiad ac felly ar adeg ysgrifennu yr adroddiad hwn roedd cyfyngiad yn yr hyn oedd yn bosib ei rannu fel diweddariad.

### 3.2 Camau nesaf

Gwaith y Bwrdd yn parhau gyda'r bwriad o adrodd yn ôl i'r Cabinet ar gynnydd ymhen 3 mis.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol.

### 4.1 Prif Swyddog Cyllid

Ni fydd y penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant a nid oes gennyf sylwadau pellach i'w cynnig.

### 4.2 Swyddog Monitro

Mae'r Bwrdd Rhaglen wedi'i sefydlu gan y Cabinet gyda Chadeirydd Annibynnol i gydlynu a sicrhau cynnydd ar y Cynllun Ymateb a fabwysiadwyd ganddo. Mae'n allweddol i'r trefniant llywodraethu hwn bod y Cabinet yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yn y gwaith hollbwysig yma. Mae adroddiad gan y Cadeirydd Annibynnol, yr Athro Sally Holland yn ddull tryloyw a chadarn o ddarparu'r sicrwydd hwnnw. Rwy'n croesawu'r adroddiad.